# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

# Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON

# 13/6/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0062 Canolfan Gelfyddydau Amlddiwylliannol i Gymru/Multicultural Arts Centre for Wales

14 Jun 2000 Raised by Lorraine Barrett

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a wnaed i Gymru gan y mudiad celfyddydau amlddiwylliannol CADMAD, a'i fod, yn fwyaf arbennig, yn nodi'r rôl y mae yn ei chyflawni ar hyn o bryd.*
*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn croesawu penderfyniad y Cyngor Celfyddydau i gefnogi cynigion CADMAD ar gyfer sefydlu canolfan gelfyddydau amlddiwylliannol ym Mae Caerdydd.*

*This National Assembly notes the social and economic contribution made to Wales by the multicultural arts organisation CADMAD and in particular notes the all Wales role that they now fulfil.*
*The National Assembly further welcomes the Arts Council's decision to support CADMAD's proposals for the foundation of an all Wales multicultural arts centre in Cardiff Bay.*

## OPIN-2000-0061 Erthygl 13 o Gytundeb Amsterdam 1997/Article 13 of the Treaty of Amsterdam 1997

14 Jun 2000 Raised by Lorraine Barrett, Brian Gibbons FRCGP, Alun Pugh

No Subscribers

*Credwn y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gofrestru ei gefnogaeth fel corff corfforaethol ar gyfer cadarnhau Erthygl 13 o Gytundeb Amsterdam. Credwn y bydd cadarnhad gan Gyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd yn help mawr tuag at frwydro yn erbyn gwahaniaethu o bob math ym mhob cwr o'r UE.*

*We believe that the National Assembly for Wales should register its support as a body corporate for the ratification of Article 13 of the Treaty of Amsterdam. We believe that ratification by the EU council of Ministers will be a significant aid in combating discrimination of all kinds throughout the EU.*

## OPIN-2000-0057 Diogelu Ysgolion Gwledig Cymru/ The Protection of Rural Schools in Wales

26 May 2000 Raised by Christine Humphreys, Jenny Randerson

7 Subscribers:

Cynog Dafis
Nicholas Bourne LLB LLM
Owen John Thomas MA
Mick Bates
Kirsty Williams
Richard Edwards
Michael German OBE

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod pwysigrwydd Ysgolion Gwledig i'r disgyblion a wasanaethant ar y naill law ac i'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt ar y llall, a mynega ei ofid am yr ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgolion hynny.*
*O ganlyniad i hynny, mae'r Cynulliad yn ymgymryd i drafod y problemau y mae ysgolion gwledig yn eu hwynebu gyda golwg ar ffurfio strategaeth genedlaethol a fydd yn diogelu dyfodol yr ysgolion hyn.*

*This Assembly recognises the importance of Rural Schools to both the pupils that they serve and the community of which they are a part, and expresses concern at the current uncertainty that surrounds the future of such schools.*
*As such, this Assembly undertakes to debate the problems that are faced by rural schools with a view to formulating a national strategy that will ensure the future of these schools.*

## OPIN-2000-0053 Effaith Carthu Tywod ar Arfordir De-Orllewin Cymru / The impact of sand dredging on the South West Wales Coast

17 May 2000 Raised by Alun Cairns

10 Subscribers:

- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Jocelyn Davies
- Cynog Dafis
- David Melding
- Kirsty Williams
- Michael German OBE
- Ron Davies
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Glyn Davies
- Peter Black

*Mae'r Cynulliad hwn yn credu'n gryf fod carthu tywod yn Môr Hafren yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel y tywod ar hyd arfordir De-Orllewin Cymru ac yn galw'n bendant am wrthod ceisiadau am drwyddedau nes profir yn wahanol.*

*This Assembly believes that sand dredging in the Bristol Channel is having a direct impact on the level of sands on the South West Wales coastline and calls for a rejection of licence applications until it is proven otherwise, without question.*

## OPIN-2000-0017 Achos Dau Caergrawnt/The Cambridge Two Case

08 Feb 2000 Raised by Michael German OBE

12 Subscribers:

Ron Davies
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Karen Sinclair
Rhodri Glyn Thomas
Mick Bates
Peter Black
Kirsty Williams
Cynog Dafis
Val Feld
Gareth Jones
John Griffiths LLB
Jenny Randerson

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydanbod y goblygiadau difrifol i'r rhai sy'n gweithio gyda'r digartref yng Nghymru yn deillio o garcharu Ruth Wyner a John Brock o Ganolfan Ddydd Wintercomfort Caergrawnt, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i roi sylw ar frys i'r materion canylynol:*
*- Cynnal adolygiad llawn o achosion Ruth Wyner a John Brock a'r cefndir iddynt*
*- Cynnal adolygiad o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau fel na fydd achosion fel hwn yn codi yn y dyfodol*

*This Assembly recognises the serious implications for those working with the homeless in Wales of the imprisonment of Ruth Wyner and John Brock of Cambridge's Wintercomfort Day Centre, and calls on the Home Secretary to give urgent attention to the following matters:*
*- Conducting a full review of the cases of Ruth Wyner and John Brock and the background to them*
*- Conducting a review of the Misuse of Drugs Act so that cases such as this will not arise in the future*